

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU
**Aseiad o'r Effaith ar y
Gymuned**

**Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg arbennig yn y
Fro trwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol
Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021.**



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille ac mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 709828 neu 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk i drefnu hyn a/neu i gyflwyno unrhyw ymholiadau.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Y Cyd-destun Cenedlaethol	3
Y Cyd-destun Polisi Lleol	3
Heriau Cyfredol	4
Proffil y Gymuned	4
Asesiad o'r Effaith	6
Crynodeb Sgorio.....	10
Casgliadau	10

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein hysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrion, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sydd dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Mae'r cynnig yn un i drawsnewid addysg arbennig yn y Fro trwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021.

Ystyrir y cynnig hwn dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli a.y.b.) (Cymru) 2014.

Y Cyd-destun Cenedlaethol

Y canllawiau statudol allweddol i awdurdodau allweddol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yw adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf neu raglenni sy'n olynwyr iddynt.

Y Cyd-destun Polisi Lleol

Gan adlewyrchu'r polisi cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol 2020-25 i wireddu'r weledigaeth ganlynol – **'Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol disgleiriach'**.

Mae Bro Morgannwg yn ymrwymedig i gyflawni'r amcan 'cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy' gan godi safonau cyflawniad ar y cyfan trwy foderneiddio addysg yn y Fro i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym ni'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas i'w diben sy'n diwallu anghenion addysg yr oes fodern. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl i wneud yn siŵr bod y cyfleoedd gorau ar gael i blant a phobl ifanc a'u bod yn gallu cyflawni eu llawn botensial.

Heriau Cyfredol

Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nifer o heriau a byddai'n cyflawni'r canlynol:

- Rhoi cymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion ag Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig mewn amgylchedd ysgol uwchradd brif ffrwd i sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Gwneud darpariaeth yn y Fro ar gyfer niferoedd uwch o'n disgyblion sydd ag Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol drwyddi draw yn Ysgol Uwchradd Whitmore.
- Llai o ddibyniaeth ar ddarpariaeth gostus y tu allan i'r sir.

Proffil y Gymuned

Mae 8 ysgol yn yr ardal o amgylch WHS yn y Barri ar hyn o bryd:

Enw'r ysgol	Math	Iaith	Ystod oedran	Capasiti*	Lleoedd meithrin (rhan-amser)	Pellter o YUW (milltiroedd)
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint	Enwadol	Saesneg	3 - 11	210	39	1.5
Ysgol Gynradd Colcot	Cymunedol	Saesneg	3 - 11	315	54	0.8

Ysgol Gynradd Gladstone	Cymunedol	Saesneg	3 - 11	420	90	1.7
Ysgol Gwaun Y Nant	Cymunedol	Cymraeg	3 - 11	420	82	1.8
Ysgol Gynradd Oak Field	Cymunedol	Saesneg	3 - 11	210	52	1.8
Ysgol Uwchradd Pencoedtre	Cymunedol	Saesneg	11 - 19	1100	Amh.	1.3
Ysgol St Curig	Cymunedol	Cymraeg	3 - 11	420	114	1.2
Ysgol Bro Morgannwg	Cymunedol	Cymraeg	3 - 19	1360	56	0.7**

*oedran ysgol statudol – h.y. nid yw'n cynnwys meithrin.

**safle ar bwys YUW ond nid yw'n uniongyrchol hygyrch ar hyd ffordd.

Mae Ysgol Uwchradd Whitmore wedi'i lleoli yn ward Dyfan 1 ac fe'i hamgylchynir gan wardiau Illtyd a Merthyr Dyfan yn y Barri. Maestref ogledd-ddwyreiniol yn y Barri ym Mro Morgannwg, yn ne Cymru, a arferai fod yn bentref canoloesol annibynnol yw Merthyr Dyfan neu Dyfan.

Mae gan ward Merthyr Dyfan boblogaeth o 5,543 ac mae gan ward Illtyd boblogaeth o 8,404 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

Daw'r data isod ar gyfer wardiau Merthyr Dyfan ac Illtyd sy'n amgylchynu YUW o [Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#).

Ardal Etholaethol ym Mro Morgannwg	Cod ACEHI	Safle yng Nghymru ar y Cyfan (o 1909)		Safle o ran Cyflogaeth (o 1909)		Safle o ran Mynediad at Wasanaethau (o 1909)	
		Safle	% (Lleiaf / Mwyaf Amddifadus)	Safle	% (LIA / MA)	Safle	% (LIA / MA)
Dyfan 1	W01001091	1740	50% LD	1643	50% LD	1780	50% LD
Dyfan 2	W01001092	878	30-50% MD	684	30-50% MD	1009	50% LD
Dyfan 3	W01001093	476	20-30% MD	364	10-20% MD	712	30-50% MD
Illtyd 2	W01001099	699	30-50% MD	672	30-50% MD	1087	50% LD
Illtyd 6	W01001103	1863	50% LD	1749	50% LD	1894	50% LD

Fel y dengys y tabl uchod, mae'r wardiau sy'n amgylchynu YUW yn gymysg o ran lefelau amddifadedd. Mae tair o'r wardiau cyfagos ymhlith y rhai mwyaf amddifadus ar y cyfan ond mae dwy ymhlith y rhai lleiaf amddifadus ar y cyfan. Mae Dyfan 3 yn y 10-20% mwyaf amddifadus o ran cyflogaeth. Mae bron pob un o'r wardiau yn y 50% o wardiau lleiaf amddifadus o ran mynediad at wasanaethau.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae adeilad newydd yn cael ei godi ar gyfer YUW ar hyn o bryd ar ei safle presennol yn barod erbyn mis Medi 2021. Mae ardal yn yr adeilad wedi cael ei dyrannu ar gyfer Canolfan Adnoddau Arbenigol. Cynigir y byddai hon yn canolbwyntio ar ddisgyblion ag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig.

Byddai lleoli'r ganolfan hon mewn ysgol uwchradd brif ffrwd yn rhoi cymorth ychwanegol i'r disgyblion hyn gan sicrhau ar yr un pryd eu bod yn gallu cael mynediad at addysg uwchradd brif ffrwd. Byddai hyn yn lleihau'r galw am leoedd yn Ysgol Y Deri (YYD), gan hefyd sicrhau bod darpariaeth ar gyfer disgyblion na fyddent fel arfer yn bodloni'r meini prawf ar gyfer lleoliadau yn YYD.

Asesiad o'r Effaith

Mae'r adran hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae'r wybodaeth a ddadansoddir yn y broses hon yn cynrychioli ciplun o'r sefyllfa ar hyn o bryd. Mae'r asesiad o'r effaith yn ddogfen sy'n esblygu a fydd yn dal i gael ei datblygu trwy gydol y broses statudol. Bydd adborth a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael ei ddefnyddio i ddarparu rhagor o wybodaeth ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori.

Mae wyth mesur allweddol wedi cael eu hadnabod:

Cyf.	Mesur
CI1	Mae plant sy'n byw yn y dalgyllch yn mynychu eu hysgol leol
CI2	Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol
CI3	Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol
CI4	Cyfleusterau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgarwch a gyflawnir ar safle'r ysgol
CI5	Effaith ar fusnesau lleol
CI6	Effaith ar gyflogaeth leol
CI7	Effaith ar seilwaith lleol
CI8	Trefniadau cludiant

Aseswyd yr wyth mesur i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol, a chymhwyswyd sgôr a oedd yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth a oedd ar gael.

Sgôr y Mesur	Asesiad o'r Mesur
-3	Dirywiad mawr
-2	Dirywiad cymedrol
-1	Dirywiad bach
0	Dim newid ar y cyfan
1	Gwelliant ach
2	Gwelliant Cymedrol
3	Gwelliant Mawr

Effeithiau ar y Gymuned Leol

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Cynnig
CI1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol	2	<p>Byddai lleoli'r ganolfan adnoddau arbenigol mewn ysgol uwchradd brif ffrwd, YUW, yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig gan sicrhau ar yr un pryd eu bod yn gallu cael mynediad at addysg uwchradd brif ffrwd. Byddai hyn yn lleihau'r galw am leoedd yn YYD, gan hefyd sicrhau bod darpariaeth ar gyfer disgyblion na fyddent fel arfer yn bodloni'r meini prawf ar gyfer lleoliadau yn YYD.</p> <p>Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gyflenwad a galw mwy effeithlon o ran lleoedd ysgol ar gyfer disgyblion ADY yn y Fro ac yn lleihau'r angen i blant fynychu darpariaeth y tu allan i'r Fro.</p>
CI2	Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol	0	Cynigir y byddai unrhyw wasanaethau cymunedol a ddarperir gan YUW ar hyn o bryd yn parhau ac na fyddai unrhyw ddarpariaeth yn cael ei cholli.
CI3	Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol	0	Ni fyddai YUW yn colli unrhyw fynediad at gyfleusterau cymunedol o ganlyniad i'r cynnig hwn.
CI4	Cyfleusterau a ddarperir gan yr ysgol a	1	Un o elfennau allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif yw darparu cyfleusterau cymunedol. Byddai'r cynnig yn cynnwys creu cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf y gallai'r gymuned eu llogi; megis meysydd chwaraeon ac ystafelloedd cyfarfod.

	gweithgarwch a gyflawnir ar safle'r ysgol		Mae potensial i fynediad cymunedol at gyfleusterau gael ei gynyddu, megis ystafelloedd cyfarfod. Cyfrifoldeb yr ysgol fydd rheoli hyn gyda gofynion diogelu.
CI5	Effaith ar fusnesau lleol	0	Ni fyddai unrhyw effeithiau ar fusnesau lleol o ganlyniad i'r cynnig hwn mewn perthynas ag YUW.
CI6	Effaith ar gyflogaeth leol	1	Gall y cynnig hwn arwain at gynnydd mewn cyflogaeth arbenigol a chyfleoedd datblygu proffesiynol yn YUW.
CI7	Effaith ar seilwaith lleol	0	Cynhaliwyd asesiad trafndiaeth llawn fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer adeilad newydd yr ysgol. Mae unrhyw effeithiau negyddol wedi cael eu hadnabod a datrysiadau wedi'u gwreiddio fel rhan o gynllunio ar gyfer adeilad a safle newydd YUW.
CI8	Trefniadau cludiant	1	<p>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf, yn unol â'r 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'.</p> <p><i>"Y diffiniad o hyn yw mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Uwchradd. Caiff pellterau eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."</i></p> <p>Efallai y bydd gostyngiad o ran darparu cludiant ar gyfer disgyblion sy'n mynychu darpariaeth y tu allan i'r sir gan y byddai hyn ar gael yn awr yn y Fro.</p>

Crynodeb Sgorio

Cyf.	Y Gymuned Leol
CI1	2
CI2	0
CI3	0
CI4	1
CI5	0
CI6	1
CI7	0
CI8	1
Sgôr Cyfartalog	0.625

Casgliadau

Mae'r asesiad o'r effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 4 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 4 o'r 8 mesur a aseswyd. Ar y cyfan, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol / niwtral ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn ei gwneud yn bosibl WHS ddarparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fyddai'n herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig yn diwallu anghenion y gymuned yn well i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion a'r galw amdanynt.